# Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG

*Ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

CPS

VS VICTIM SUPPORT

GMB WALES & SOUTH WEST

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

UNISON Cymru Wales

unite the UNION CYMRU WALES

GIG CYMRU NHS WALES Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Shared Services Partnership Legal and Risk Services

BMA CYMRU WALES

GIG CYMRU NHS WALES Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# TABL CYNNWYS

## RHAN UN - Diben a Strwythur y Ddogfen


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Bwriad a Diben | **1** |
| **2** | Y Broses wedi'i Symleiddio | **2** |
| **3** | Gweithredu, Cyhoeddusrwydd ac Adolygu | 3 |
| **4** | Dyddiad Dechrau | 3 |
| **5** | Cyfathrebu a Phwynt Cyswllt Cyntaf ar gyfer GIG, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu | **3** |
| **6** | Ymgysylltu | 4 |
| **7** | Dwysáu | 4 |
| **8** | Adolygu a Gweithredu | **5** |
| **9** | Adroddiad Blynyddol | 5 |
| **10** | Bwriad Troseddol a Lles y Cyhoedd wrth Erlyn | 5 |
| **11** | Llofnodwyr | **6** |

**RHAN DAU**

Canllaw Gweithredol – Ar gael ar http://www.nwssp.wales.nhs.uk/page/97264

**RHAN 3 ATODIADAU** – Ar gael ar ddolen porth diogel yn http://www.nwssp.wales.nhs.uk/page/97264

A Cyngor i Ddioddefwyr mewn 'Cymraeg Clir'

B Deunyddiau Cyhoeddusrwydd a Phosteri

C Cyflwyniad Hyfforddi ar gyfer yr Heddlu

D Pwynt Cyswllt Cyntaf ar gyfer y GIG, Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron

E (i) Rôl Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG

(ii) Ffurflen Caniatâd Dioddefwr ar gyfer Datgelu Gwybodaeth

F Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

G Profforma – Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer Tramgwyddwyr ag Anhwylder Meddyliol

H Enghraifft o Ddatganiad Effaith ar y Gwasanaeth

I Amodau Mechnïaeth Profforma

J Ystod o Gynigion Amgen i Erlyn

K Protocol ar gyfer Darparu cofnodion damweiniau ac achosion brys yn amserol ar gyfer pob ymosodiad

L Geirfa

M. Enghraifft o Adroddiad Blynyddol Rheoli Achosion

# 1. (i) Datganiad o Fwriad

Cydnabyddir bod staff y GIG (Ysbyty, Ambiwlans, Cymunedol, Gofal Sylfaenol, Deintyddiaeth, Awdurdodau Iechyd Arbennig a holl staff y sector cyhoeddus sy'n ymgymryd â dyletswyddau gofalu) (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Staff y GIG") ymhlith y rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu trais a chamdriniaeth yn ystod eu cyflogaeth. Mae achos cryf dros erlyn y rhai sy'n cam-drin staff y GIG yn eiriol ac yn gorfforol er lles y cyhoedd. Bydd pawb sy'n barti i'r Cytundeb yn annog gwasanaethau heddlu unigol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a chyrff yn y GIG i geisio'r cosbau llymaf posibl mewn achosion priodol. Mae'r GIG yn cydnabod dilysrwydd cyfiawnder adferol a'r ystod o ddatrysiadau digarchar sydd ar gael.

- **Y GIG sydd yn bennaf gyfrifol am nodi ac ymateb i ddigwyddiadau treisgar er mwyn rhoi'r cytundeb hwn ar waith.**
- **Rhaid gwella prosesau adrodd am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau llwyddiant. Dylai'r Byrddau Iechyd adolygu pob ffurflen cofnodi digwyddiad sy'n ymwneud â thrais tuag at aelod o staff er mwyn gwella gweithdrefnau rheoli risg ac er mwyn rhoi sicrwydd i staff ei bod yn werth uwchgyfeirio'r mater a bod adroddiadau yn cael eu hadolygu. Os bydd achos o Drais neu ymddygiad ymosodol yn digwydd ac na chwblheir ffurflen DATIX, rhaid cyflwyno adroddiad i Reolwr achos y GIG, fel y gellir ei gofnodi at ddibenion ystadegol.**

## (ii) Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfrifoldebau'r partneriaid wrth ddelio â digwyddiadau treisgar neu ymosodol sy'n ymwneud â staff y GIG. Mae'n canolbwyntio ar y digwyddiadau hynny y mae angen i'r system cyfiawnder troseddol fynd i'r afael â hwy a sut y gellir eu hatal. Mae'n adeiladu ar dri chytundeb blaenorol yng Nghymru.[1]

## (iii) Partïon

Mae'r Cytundeb rhwng pedwar gwasanaeth yr Heddlu yng Nghymru (Grŵp Prif Swyddogion Cymru), Gwasanaeth Erlyn y Goron, y GIG yng Nghymru a sefydliadau partner fel ochr y staff a chymorth i ddioddefwyr.

Nod y Cytundeb yw dod â:

- Sicrhau bod partneriaid yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn effeithlon â'i gilydd, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth ar bob lefel
- Sicrhau bod pawb yn deall ei rôl, ei gyfrifoldebau a'r prosesau a'r cyfyngiadau cyfreithiol
- Sicrhau bod datganiad clir am y polisi erlyn a fydd yn helpu staff GIG Cymru i ddeall y system cyfiawnder troseddol ac i feithrin eu hyder ynddo
- Bydd Arweinwyr lefel Bwrdd/Gwasanaeth ar Drais ac Ymddygiad Ymosodol yn ymdrechu i ddarparu datganiadau effaith ar wasanaethau cymunedol ac yn eu llofnodi at ddibenion dedfrydu.

## (iv) Help i Ddioddefwyr

Mae'r dioddefwyr trais ac ymddygiad ymosodol y sonnir amdanynt yn y Cytundeb hwn yn cynnwys pob aelod o staff sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw sicrhau bod dioddefwyr wrth wraidd y Cytundeb hwn.
Mae **Atodiad A yn Rhan 3** yn nodi'r ystod eang o unigolion perthnasol ac yn nodi'r cymorth sydd ar gael mewn 'Cymraeg Clir'.

1. Mae’r ddogfen hon yn cymryd lle tri chytundeb blaenorol: un a arwyddwyd ar 22 Mawrth 2007, yr ail ar 14 Medi 2009, a’r trydydd yn 2013.

# Y Broses wedi'i symleiddio - **Ar gael fel Poster yn Atodiad B** *#GrymusoTrwyAtal*

## ATAL

**Mae'r GIG yn atal ymosodiadau trwy weithdrefnau rheoli risg effeithiol**

## COFNODI

**Ymosodiadau ar ddioddefwyr yn y GIG**
(Yn cynnwys staff Ambiwlans, Parafeddygon, Ysbyty, Gofal Sylfaenol h.y. Meddygon Teulu, Fferyllfa, Podiatreg, Deintyddiaeth, Offthalmoleg, Awdurdodau Iechyd Arbennig)

Y Digwyddiad yn cael ei Adrodd i'r Rheolwr ac i'r Heddlu ar 999 os yw'n ddigwyddiad parhaus

Cwblhau adroddiad digwyddiad (Datix)

## YMCHWILIO

**Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol**
Yn ymchwilio (yn cefnogi Rheolwr yn y GIG i ymchwilio)
- Yn cysylltu â'r heddlu ar 101 yn syth
Bydd posibilrwydd o adrodd am droseddau ar-lein hefyd, a rhennir yr

**Heddlu – ar ôl derbyn cyfrif cywir**
- Ymateb
- Ymchwilio – cael caniatâd y dioddefwr
- Gweithredu cosb / datrysiad y tu allan i'r llys neu;
- Cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron

## ERLYN

**GWASANAETH ERLYN Y GORON**
- Ystyried Erlyn
- Bwrw ymlaen â'r Erlyniad

**Bydd Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG yn hwyluso'r broses o rannu**

**Erlyn – caiff y dioddefwr gymorth trwy gydol y broses**

## ATAL

**Bydd Corff Iechyd yn darparu datganiadau Effaith ar Wasanaeth ar Lefel Cyfarwyddwr a datganiadau Dioddefwyr ar y cyd â'r Heddlu**

**Caiff y ddedfryd ei phasio**

**Caiff y cyfryngau wybod**

**Y GIG i fyfyrio a mireinio mentrau Rheoli risg ataliol**

# 3. Gweithredu, Cyhoeddusrwydd ac Adolygu

### Gweithredu

Ni fu fersiynau cynharach y cytundeb hwn yn ddigon hysbys i staff ,nac ar lefel cwnstabl, sy'n golygu nad oedd yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Mae cyhoeddusrwydd yn hollbwysig a rhaid i'r partïon fynd ati i weithredu'r cytundeb mewn modd brwdfrydig a thrylwyr. Mae adnoddau i gefnogi'r gwaith o weithredu gan gynnwys ystod eang o bosteri llawn gwybodaeth, ar gael yn **Rhan 3 Atodiad (B)**

Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu 'Apiau' ar gyfer yr Heddlu a staff y GIG yn cael ei hyrwyddo er mwyn gweithredu'r cyngor ymarferol yn y Cytundeb hwn. Cafodd cyflwyniad hyfforddi ei lunio gan yr Uwcharolygydd Claire Evans o Heddlu De Cymru er mwyn cynorthwyo swyddogion ac mae ar gael yn **Rhan 3 Atodiad (C).**

Defnyddir technoleg yn gynyddol i gipio tystiolaeth ac ar hyn o bryd mae'r staff diogelwch yng Nghymru yn defnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff ac mae'n cael ei ystyried gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Dylai unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r ddogfen hon gael eu cytuno'n ysgrifenedig gan y Partïon a rhaid iddynt fod yn gyson â'r protocolau a safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

# 4. Dyddiad Dechrau

Bydd y Cytundeb hwn yn dod i rym ar 21 Tachwedd 2018. Mae Deddf Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) 2018 wedi dod i rym a bydd dedfrydau yn sgil ymosodiadau yn y cyswllt hwn yn dyblu i bob pwrpas. Dylid cymhwyso'r weithred hon lle y bo'n bosibl ac mae'n cynnwys diffiniad eang o Weithwyr Brys. Mae'n bosibl bod holl staff y GIG sy'n wynebu'r cyhoedd yn Weithwyr Brys.

# 5. Cyfathrebu a Phwyntiau Cyswllt Sengl (SPOC)

Mae cyfathrebu effeithiol yn ganolog i lwyddiant y Cytundeb hwn er mwyn:

- Gwella adrodd am ddigwyddiadau treisgar
- Cryfhau'r broses ymchwilio ac erlyn, trwy wella ansawdd gwybodaeth a phrydlondeb a gaiff ei rhannu
- Gwella gofal a hyder i ddioddefwyr a thystion
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am achosion o drais ac ymddygiad ymosodol, ac am y camau y bydd pob parti yn eu cymryd.

Mae'r partïon yn cytuno y bydd unigolion o'u sefydliadau yn cael eu henwebu i weithredu fel pwyntiau cyswllt sengl, gan symleiddio'r llwybrau cyfathrebu ar gyfer gweithredu gweithredol, monitro ac adrodd ar y cytundeb.

### Mae'r Pwyntiau Cyswllt Sengl a nodwyd ar gyfer pob sefydliad yn Rhan 3 Atodiad (D)

### i. Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG

Mae gan bob corff iechyd yng Nghymru arweinydd trais ac ymddygiad ymosodol ar lefel bwrdd. *Mae gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol eu harweinwyr cyfatebol.* Bydd yr arweinwyr hyn, ochr yn ochr ag Arweinwyr Iechyd a Diogelwch, yn goruchwylio Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG, a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt sengl. Rôl y Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol yw sicrhau eu bod yn weladwy ac yn rhydd i gyflawni'r canlynol:

- Cefnogi a thywys y dioddefwyr trwy'r system cyfiawnder troseddol a'u helpu i ddod o hyd i gymorth llesiant sydd ar gael yn y GIG
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cytundeb mewn modd rhagweithiol, gan nodi ei nodau a'i lwybrau o fewn eu sefydliadau
- Rhoi adroddiadau cynhwysfawr i'w Cyfarwyddwr Trais ac Ymddygiad Ymosodol arweiniol yn fisol, gan nodi nifer yr ymosodiadau gan gleifion, yr adegau lle y bu'r Heddlu'n bresennol, yr erlyniadau troseddol sydd yn yr arfaeth ac sydd wedi'u cyflawni
- Cysylltu â phartneriaid y cytundeb er mwyn creu llwybrau lleol ac effeithiol o gyfathrebu ac o ddealltwriaeth
- Bydd Byrddau Iechyd, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu yn darparu adroddiad i Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG bob chwe mis i'w adolygu a'i ystyried

Cydnabyddir y gellir rheoli achosion yn wahanol ym mhob un o sefydliadau'r GIG. Drwy gydol y Cytundeb hwn, defnyddir y term rheolwr achos i ddynodi'r person neu'r personau sy'n cyflawni'r rôl a ddisgrifir uchod. Ceir disgrifiad llawnach o rôl Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Atodiad E (i) y cytundeb hwn ac mae'r Cyrff Iechyd yn cytuno i efelychu hwn fel arfer gorau.

### ii. Heddluoedd

Bydd y Prif Gwnstabl perthnasol yn sicrhau bod Pwynt Cyswllt Sengl wedi'i ddynodi ar lefelau strategol a gweithredol. Bydd y Pwynt Cyswllt Sengl yn goruchwylio'r gwaith o weithredu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cytundeb.

### iii. GEG – Gwasanaeth Erlyn y Goron

Bydd Erlynwyr Rhanbarthol y Goron yn gweithredu fel Pwyntiau Cyswllt Sengl ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron ar lefel weithredol. Dylai'r Heddlu a Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiadau Ymosodol gysylltu ag Erlynwyr Rhanbarthol y Goron ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol lle mae'r gweithgarwch troseddol honedig wedi digwydd.

Bydd enwau a manylion cyswllt y Pwynt Cyswllt Unigol ar gael i'r partïon a'u diweddaru'n rheolaidd yn ôl y gofyn ac, o leiaf, yn flynyddol. Yna gellir lledaenu'r wybodaeth hon o fewn GIG Cymru.

## 6 Ymgysylltu

Mae pob parti wedi ymrwymo i annog ymgysylltiad rheolaidd, lleol er mwyn:

- Annog cyhoeddusrwydd i'r cytundeb
- Annog Cyhoeddusrwydd ehangach gan yr Heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron/GIG
- Sicrhau cyswllt a rhannu gwybodaeth yn effeithiol.
- Sefydlu'r cysyniad o gyd-gefnogaeth wrth fynd i'r afael â throseddu o fewn y GIG.

## 7 Dwysáu

Os bydd unrhyw broblemau yn codi mewn achosion unigol, dylai'r Rheolwr Achosion geisio eu datrys gyda phwynt cyswllt sengl yr Heddlu neu bwynt cyswllt sengl Gwasanaeth Erlyn y Goron. Os na fydd problem yn cael ei datrys, dylai'r Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol gysylltu â Chadeirydd presennol Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG, Mr. Andrew Hynes, Uwch Gyfreithiwr

Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, er mwyn adolygu ac ymgynghori ar y sefyllfa. Caiff dioddefwr ystyried "hawl y dioddefwr i adolygu'r broses" hefyd.

## 8. Adolygu Gweithrediad y Cytundeb

Bydd Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG yn trefnu cyfarfodydd rhwng y partïon bob chwe mis i adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd y cytundeb. Bydd Cyrff Iechyd yn darparu data ar brofiadau eu hardaloedd.

Cynhelir cyfarfodydd adolygu bob chwe mis gydag Ynadon o Gymru i adolygu eu canfyddiadau am ba mor hysbys yw’r Cytundeb.

## 9. Adroddiad Blynyddol

Mae'r partïon yn ymrwymo, i gasglu a darparu ystadegau yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos effeithiolrwydd a diffygion y cytundeb hwn yn flynyddol i'r Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais, a fydd yn cynhyrchu adroddiad i'w ddosbarthu i bawb sydd ynghlwm (yn amodol ar lywodraethu gwybodaeth priodol); bydd Cyrff y GIG yn cyflwyno adroddiad blynyddol unigol i'w Bwrdd yn cadarnhau ac yn dangos cydymffurfiaeth â'r cytundeb hwn. (Mae Atodiad M yn darparu Templed Adroddiad enghreifftiol)

## 10. Bwriad Troseddol a Lles y Cyhoedd mewn Erlyn

**Mae’r Cytundeb hwn yn cynnwys diwygiadau sy’n ceisio cynorthwyo swyddogion sy’n mynychu lleoliadau’r GIG i gydnabod mai’r cam cyntaf ar gyfer asesu p’un a fydd erlyniad yn mynd rhagddo ai peidio yw asesu tystiolaeth ffeithiol yr achos. Dylid atgoffa swyddogion bod cwestiynau yn ymwneud â bwriad y claf i gyflawni trosedd yn gymhleth ac y byddant yn cael eu hadolygu a’u harchwilio wrth i’r achos fynd rhagddo.**

**Dylai swyddogion fod yn hynod ofalus wrth wneud canfyddiadau yn y fan a’r lle fydd yn rhagflaenu unrhyw gamau pellach, oherwydd y bydd camgymeriadau yn ystod y cyfnod hwn yn aml yn amhosibl eu gwrthdroi ac yn gallu arwain at gamweinyddiad cyfiawnder difrifol, gan fygwth diogelwch y cyhoedd. Mae’r term capasiti yn gysyniad mewn cyfraith sifil ac nid mewn cyfraith droseddol, ac mae wedi cael ei ddefnyddio fel term procsi ar gyfer mens rea. Rhaid dod â hyn i ben.**

# 11. Llofnodwyr y Cytundeb

Mae'r llofnodwyr yn cytuno i weithredu darpariaethau'r memorandwm hwn ac unrhyw drefniadau a nodir yn y dogfennau amgaeedig

......................................................................
**Heddlu De Cymru**

......................................................................
**Heddlu Gogledd Cymru**

......................................................................
**Heddlu Gwent**

......................................................................
**Heddlu Dyfed-Powys**

......................................................................
**Prif Erlynydd y Goron Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru**

......................................................................
**Dr Andrew Goodall**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr Ar gyfer ac ar ran GIG Cymru**

**Dyddiad:**